
Digolledu darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol

Ymgynghoriad ar reoliadau ariannu y hysbysiad o
fwriad Ofcom i gynhyrchu rheoliadau arianny yn unol
ag adran 71 o'r Ddeddf Gyfathrebiadau 2003

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 5 Tachwedd 2019

Dyddiad cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 7 Ionawr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

- 1.1 Rydym ni eisiau i bobl ledled y Deyrnas Unedig gael mynediad at well gwasanaethau band eang a ffonau symudol, fel bod pawb yn elwa o'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cynnig. Mae hynny'n golygu hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau gwell a gwneud yn siŵr bod darpariaeth rhwydweithiau'n ymestyn cyn belled â phosib - hyd yn oed i'r ardaloedd anoddaf eu cyrraedd.
- 1.2 Mae 'rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol' (USO) sy'n gwarantu lefel deilwng o wasanaethau ffôn cartref wedi bod ar waith ers 2003. Y llynedd, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth ar USO band eang, sy'n rhoi hawl i gartrefi a busnesau ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy. Rydym ni'n croesawu hyn, fel elfen bwysig o'r gwaith o wella mynediad at wasanaethau band eang ledled y Deyrnas Unedig.
- 1.3 Mae Ofcom bellach yn gyfrifol am weithredu'r USO o fewn y fframwaith cyfreithiol y mae'r Senedd wedi cytuno arno. Yn gynharach eleni, penodwyd BT a KCOM gennym i ddarparu cysylltiadau a gwasanaethau USO band eang, ac fe wnaethon ni osod yr amodau a fydd ynghlwm wrthynt. O 20 Mawrth y flwyddyn nesaf, gall pobl ddechrau gwneud cais am y gwasanaethau hyn.
- 1.4 Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r costau USO band eang a fydd yn cael eu talu gan y diwydiant drwy fecanwaith rhannu costau a gaiff ei sefydlwyd gan Ofcom.¹ Fel y 'Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol', gall BT a KCOM hawlio unrhyw gostau na fyddai'n briodol iddyn nhw eu talu. Yn y ddogfen hon, rydym yn awgrymu'r rheolau a'r gweithdrefnau y dylai'r darparwyr hyn eu dilyn er mwyn hawlio unrhyw faich costau annheg a wynebir wrth ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol. Byddai'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r USO band eang, a hefyd i unrhyw rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol eraill.

¹ DCMS, Mawrth 2018 [A new broadband Universal Service Obligation: Government's response to consultation on design](#), td.5.

Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

- **Gall Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol ofyn i Ofcom adolygu ei gais am iawndal** am y gost o ddarparu'r USO, llai unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â bod yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol (cost net). Bydd Ofcom yn adolygu dim mwy nag un hawliad cost net y flwyddyn, a mater i Ofcom yw penderfynu ar hyd a lled yr adolygiad a pha bryd y bydd yn cychwyn.
- **Rhaid i Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol gyflwyno digon o wybodaeth i gefnogi'i gais am iawndal.** At ddibenion yr USO band eang, rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gyflwyno gwybodaeth ariannol benodol ar wahân.
- **Wrth gynnal adolygiad, bydd angen i Ofcom benderfynu a oes cost net yn bodoli ynghyd â lefel unrhyw gost net.** Byddwn yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir gan y darparwr ac yn asesu a oedd y costau a achoswyd wrth gyflawni'r USO yn effeithlon. Bydd ein cyfrifiad yn cael ei archwilio hefyd.
- **Unwaith y byddwn wedi pennu bod yna gost net, byddwn yn penderfynu a fyddai'n annheg i'r darparwr ysgwyddo peth o'r gost honno, neu'r gost i gyd.** Rydym yn cynnig ein trefn ni sy'n cynnwys ystyried: y gost i Ofcom ac i'r diwydiant o sefydlu a gweinyddu cronfa diwydiant; yr effaith ar y darparwr pe bai'n talu'r costau hyn ar ei ben ei hun; y dull o ddynodi'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol; a chanlyniad unrhyw benderfyniadau blaenorol.
- **Os penderfynwn ni fod darparu'r USO yn faich annheg, gall Ofcom sefydlu cronfa diwydiant i ddigolledu Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol.** Byddwn hefyd yn penderfynu pwy fydd yn cyfrannu at y gronfa a faint fyddan nhw'n ei gyfrannu. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw drothwy na fydd cyfraniadau'n ofynnol oddi tanodd.
- **Cyn gynted ag y byddwn wedi sefydlu cronfa diwydiant, byddwn yn casglu arian gan y diwydiant ac yn digolledu'r Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol.** Byddwn yn casglu ac yn gwirio gwybodaeth berthnasol er mwyn cyfrifo cyfraniadau unigol. Wedyn byddwn yn anfonebu pob darparwr y mae gofyn iddo gyfrannu er mwyn iddo dalu erbyn dyddiad terfyn penodedig. Pan fydd y cyfraniadau wedi dechrau dod i law, byddwn yn talu'r Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn fisol.

Y camau nesaf

- 1.5 Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion erbyn 5pm ar 7 Ionawr 2020. Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng ngwanwyn 2020.
- 1.6 Mae'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol wrthi ar hyn o bryd yn paratoi i ddarparu'r USO band eang a bydd defnyddwyr yn gallu dechrau gwneud cais am gysylltiad USO band eang o 20 Mawrth 2020.